

Jeremy Miles AS, Cwnsler Cyffredinol

Rebecca Evans AS, Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

1 Gorffennaf 2020

Annwyl Jeremy a Rebecca,

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020, a thorri'r rheol 21 diwrnod

Yn ein cyfarfodydd ar 22 a 29 Mehefin 2020, gwnaethom drafod [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) a [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.\) 2020](#). Cafodd y ddau offeryn hwn eu cyflwyno mewn modd a oedd yn torri'r **rheol 21 diwrnod**.

Ysgrifennais atoch ar 17 Mawrth 2020, gan nodi ei bod yn ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn torri'r rheol 21 diwrnod yn fwyfwy rheolaidd. Rhwng mis Hydref 2019 a 17 Mawrth 2020, cafwyd 12 achos o'r fath. Ers fy llythyr blaenorol, cafodd 13 o offerynnau eu gosod mewn modd a oedd yn torri'r rheol 21 diwrnod.

Unwaith eto, rydym yn cydnabod y gall fod rhesymau dilys dros achosion o'r fath, gan nodi mai dim ond un o'r 13 o achosion ers canol mis Mawrth nad oedd yn gysylltiedig â'r argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19. Fodd bynnag, fel y dywedais yn flaenorol, nid ydym am weld yr arfer o dorri'r rheol 21 diwrnod yn cael ei normaleiddio mewn unrhyw ffordd.

Byddwn yn parhau i fonitro pa mor aml y caiff y rheol 21 diwrnod ei thorri, yn ogystal â'r amgylchiadau cysylltiedig, er mwyn llunio asesiad cynhwysfawr ar adeg addas yn y dyfodol.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddDCC@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddLJC@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

